

NDA Monthly Update

April 2017

Summary

- Magnox contract announcement
- NDA new Chief Executive appointed
- Latest NDA Business Plan published
- NDA new Chairman named
- Updated inventory of radioactive waste published
- UK and US continue collaborative agreement
- Nuclear archive opens its doors
- Machine will clean up Sellafield's most hazardous building
- Robot demolishes final cell
- Insight magazine published
- Innovation competition seek ideas
- Sellafield's top apprentice
- Doors open on new era at Sellafield

Diary Dates

- | | |
|--|------------|
| • 8th Annual Nuclear Decommissioning and Waste Management Conference, Manchester | 25 May |
| • Robotics Week | 26 June |
| • NDA Annual Report and Accounts published | Early July |
| • NDA Estate Supply Chain Event, Manchester | 2 November |

Magnox contract announcement

The NDA has decided to terminate the Magnox contract by mutual agreement with the Cavendish Fluor Partnership (CFP). The contract will terminate in September 2019 and CFP will remain the parent body organisation until then. The NDA has also settled the claims with EnergySolutions and Bechtel. This ends the lengthy and costly court proceedings and limits further risk to the taxpayer. Below is a link to the Written Ministerial Statement made by our Secretary of State, Greg Clark:

[Weblink: Ministerial Announcement](#)

David Peattie appointed as new NDA Chief Executive

David Peattie has been named as the NDA's new Chief Executive Officer following the John Clarke's decision to take retirement after five years in the role. David, who has an extensive background in the oil and gas sector, assumed office last month. He will be responsible for leading the NDA in the decommissioning and clean-up of 17 legacy nuclear sites across the UK, including Sellafield. The appointment was made by the non-executive members of the NDA Board, with the approval of the Business, Energy and Industrial Strategy Secretary of State Greg Clark.

[Weblink: CEO appointment](#)

NDA publishes latest Business Plan

The NDA's annual Business Plan has now been published, setting out objectives and expected progress for all 17 NDA sites over the next three years. The plan is based on the NDA's 2016 Strategy and is in line with the funding agreed with HM Treasury and Department for Business, Energy and Industrial Strategy. Also included is a 20-year overview of forthcoming activities across the estate.

[Weblink: Business Plan](#)

Tom Smith appointed as NDA Chairman

The NDA's new chairman was named as Tom Smith, who took over from Stephen Henwood in March. Tom, an Oxford chemistry graduate, former diplomat and Member of the Institute of Directors, has been an NDA Non-Executive Director since 2013.

[Weblink: New Chairman named](#)

Updated inventory of radioactive waste available

An updated inventory of the UK's radioactive waste has been published. The inventory comprises a series of reports that provide the information on levels of radioactive waste across the country and forecasts of the amounts that are expected to arise in the future. The UK Radioactive Waste Inventory (UKRWI) is part of an ongoing programme of research jointly conducted by the Department for Business, Energy and Industrial

Strategy (BEIS) and the NDA. The inventory is updated every three years to provide the latest national record on radioactive wastes and materials in the UK.

[Weblink: UK Radioactive Waste Inventory](#)

UK and US continue collaborative agreement

A 10-year-old agreement between US and UK government organisations responsible for nuclear clean-up was recently extended for a further five years. Since the Statement of Intent was signed in 2007, numerous information and ‘lessons learned’ exchanges have taken place on a wide variety of topics ranging from contracting strategies to plutonium management. Current activities are focused on start-up and commissioning, ageing infrastructure management, robotics/remote technology development and implementation.

[Weblink: US-UK agreement continues](#)

Nuclear archive opens its doors

A unique archive has now opened in the far north of Scotland, bringing together a vast collection of records, plans, photographs and drawings from the earliest days of the UK’s nuclear industry. Located near Dounreay, the £21 million investment by the NDA, *Nucleus (The Nuclear and Caithness Archives)*, also houses a local collection of historic Scottish material that had outgrown its existing home. Dounreay records were the first nuclear collection to be transferred; material from the other 16 sites will be moved in gradually over the coming years.

[Weblink: Archive opens](#)

Machine will clean up Sellafield’s most hazardous building

A 350-tonne machine has been installed at Sellafield to tackle one of the world’s most challenging nuclear clean-up jobs. The £100 million Silo Emptying Plant is one of three machines that will scoop radioactive waste out of the Magnox Swarf Storage Silo. The 1960s storage facility has been described as one of the most hazardous buildings in western Europe and contains 10,000 cubic metres of intermediate level waste from the earliest days of the UK’s civil nuclear industry. Material was tipped into the six silos from the top, and Magnox cladding was later added to the mix.

[Weblink: Silo Emptying Plant unveiled](#)

Robot demolishes final cell

The final internal structure has been dismantled at the Dounreay Materials Test Reactor (DMTR) support building complex, which will allow the building to be demolished later this year. The complex contained a fuel pond, waste drum store and a post-irradiated examination cave – all of which have previously been decommissioned. The final structure, a holding area for the site’s solid remote handled waste, was pulled apart

NDA Monthly Update – April 2017

remotely using a robotic demolition machine (Brokk 180). The DMTR was the first of Dounreay's three reactors to reach criticality, and was closed in 1969.

[Weblink: Robot demolishes final cell](#)

Insight magazine published

The latest edition of the NDA's news magazine Insight is now available as hard copy and via the website.

[Weblink: Edition 22 of Insight](#)

Integrated innovation competition seeks ideas

Funding totalling £3 million is being offered to develop and demonstrate technologies that could help resolve some of the challenges associated with dismantling facilities at Sellafield. Funded jointly by the NDA and the government's Innovate UK, the competition *Integrated Innovation in Nuclear Decommissioning* is particularly interested in collaborative proposals from the areas of robotics, autonomous systems, sensors and detectors, virtual reality simulation, etc. Applications from businesses of all sizes and academic institutions are welcome. The closing date for submissions is 26 April 2017.

[Weblink: Competition details and documentation](#)

Adam is top apprentice

Sellafield mechanical design apprentice Adam Sharp won the National Apprenticeship Service's Advanced Apprentice Award. Adam, 22, beat strong competition from the best apprentices in the country and was presented with his award in London. The awards, run by the National Apprenticeship Service, are now in their 13th year. They recognise both employers and apprentices across England who can demonstrate how apprenticeships have made a real difference to their organisation and careers.

[Weblink: Sellafield's winning trainee](#)

Doors set to open on new era

The last of six huge stainless steel doors is now in place at Sellafield's Pile Fuel Cladding Silo, which will be key to gaining access to the building and lifting out the contents. Each highly engineered door is equivalent in weight to around 150 adult men. Holes will be cut behind the doors, enabling remote grabs to reach in, drop down and pull out the waste. The PFCS is the oldest of the four legacy facilities on site and stores cladding removed from the Windscale Piles.

[Weblink: PFCS doors now in place](#)

Diweddariad Misol yr NDA

Ebrill 2017

Crynodeb

- Cyhoeddiad am gontract Magnox
- Penodi Prif Weithredwr newydd yr NDA
- Cyhoeddi Cynllun Busnes diweddaraf yr NDA
- Enwi Cadeirydd newydd yr NDA
- Cyhoeddi'r rhestr ddiweddaraf o wastraff ymbelydrol
- Cytundeb cydweithredol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn parhau
- Archif niwclear yn agor ei drysau
- Peiriant yn glanhau adeilad mwyaf peryglus Sellafield
- Robot yn dymchwel y gell olaf
- Cyhoeddi cylchgrawn Insight
- Cystadleuaeth arloesi yn chwilio am syniadau
- Prentis o fri Sellafield
- Agor y drws ar gyfnod newydd yn Sellafield

Dyddiadau i'r Dyddiadur

- | | |
|---|--------------------|
| • Yr 8fed Gynhadledd Flynyddol ar Ddatgomisiynu Niwclear a Rheoli Gwastraff, Manceinion | 25 Mai |
| • Wythnos Roboteg | 26 Mehefin |
| • Cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr NDA | Dechrau Gorffennaf |
| • Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA, Manceinion | 2 Tachwedd |

Diweddariad Misol yr NDA – Ebrill 2017

Cyhoeddiad am contract Magnox

Mae'r NDA wedi penderfynu dod â contract Magnox i ben drwy gytundeb ar y cyd gyda'r Cavendish Fluor Partnership. Bydd y contract yn dod i ben ym mis Medi 2019, a bydd y Cavendish Fluor Partnership yn parhau i fod yn riant gorff tan hynny. Mae'r NDA hefyd wedi setlo'r hawliadau gydag EnergySolutions a Bechtel. Mae hyn yn rhoi diwedd ar achosion llys hirfaith a drud ac yn lleihau risgiau pellach i'r trethdalwr. Ceir isod ddolen at y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig a wnaed gan Greg Clark, ein Hysgrifennydd Gwladol:

[Dolen: Cyhoeddiad Gweinidogol](#)

Penodi David Peattie yn Brif Weithredwr newydd yr NDA

Mae David Peattie wedi cael ei enwi'n Brif Swyddog Gweithredol newydd yr NDA yn dilyn penderfyniad John Clarke i ymddeol ar ôl pum mlynedd yn y rôl. Dechreuodd David, sydd â phrofiad helaeth yn y sector olew a nwy, yn y swydd fis diwethaf. Bydd yn gyfrifol am arwain yr NDA wrth iddo ddatgomiynu a glanhau 17 o hen safleoedd niwclear ledled y DU, gan gynnwys Sellafield. Penodwyd David gan aelodau anweithredol Bwrdd yr NDA, gyda sêl bendith Greg Clark, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

[Dolen: Penodi Prif Swyddog Gweithredol](#)

Yr NDA yn cyhoeddi ei Gynllun Busnes diweddaraf

Mae Cynllun Busnes blynyddol yr NDA wedi cael ei gyhoeddi, gan nodi amcanion a chynnydd disgwylidig ar gyfer 17 safle'r NDA dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn seiliedig ar Strategaeth yr NDA ar gyfer 2016, ac mae'n cyd-fynd â'r cyllid y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EM a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Ynddo hefyd ceir trosolwg 20 mlynedd o'r gweithgareddau fydd yn digwydd ar draws yr ystâd.

[Dolen: Cynllun Busnes](#)

Penodi Tom Smith yn Gadeirydd yr NDA

Cadeirydd newydd yr NDA yw Tom Smith, a gymerodd yr awenau gan Stephen Henwood fis Mawrth. Ac yntau wedi graddio mewn Cemeg o Rydychen, yn gyn-ddiplomydd ac yn Aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr, mae Tom wedi bod yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr NDA ers 2013.

[Dolen: Enwi'r Cadeirydd Newydd](#)

Cyhoeddi'r rhestr ddiweddaraf o wastraff ymbelydrol

Mae'r rhestr ddiweddaraf o wastraff ymbelydrol y DU wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r rhestr yn cynnwys cyfres o adroddiadau sy'n rhoi gwybodaeth am lefelau gwastraff ymbelydrol ledled y wlad ac mae'n rhagweld faint o gynnydd fydd yn y lefelau yn y

Diweddariad Misol yr NDA – Ebrill 2017

dyfodol. Mae Rhestr Gwastraff Ymbelydrol y DU (UKRWI) yn rhan o raglen ymchwil barhaus sy'n cael ei chynnal ar y cyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r NDA. Caiff y Rhestr ei diweddarau bob tair blynedd er mwyn darparu'r cofnod cenedlaethol diweddaraf ar ddeunyddiau a gwastraff ymbelydrol yn y DU.

[Dolen: Rhestr Gwastraff Ymbelydrol y DU](#)

Cytundeb cydweithredol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn parhau

Mae cytundeb 10 mlynedd rhwng cyrff llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau sy'n gyfrifol am lanhau niwclear wedi cael ei ymestyn am bum mlynedd arall. Ers llofnodi'r Datganiad o Fwriad yn 2007, mae llawer o wybodaeth a gwersi wedi cael eu rhannu ar bob math o bynciau, o strategaethau contractio i reoli plwtoniwm. Mae'r gweithgareddau presennol yn canolbwyntio ar ddechrau arni a chomisiynu, rheoli seilwaith sy'n heneiddio, a datblygu technoleg roboteg/o bell a'i rhoi ar waith.

[Dolen: Cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn parhau](#)

Archif niwclear yn agor ei drysau

Mae archif unigryw wedi agor yng ngogledd yr Alban, ger Dounreay, sy'n dwyn ynghyd gasgliad helaeth o gofnodion, cynlluniau, ffotograffau a dyluniadau o ddyddiau cynharaf y diwydiant niwclear yn y DU. Gyda £21 miliwn o fuddsoddiad gan yr NDA, mae *Nucleus (Archifau Niwclear a Caithness)* hefyd yn gartref i gasgliad lleol o ddeunyddiau hanesyddol o'r Alban a oedd wedi mynd yn rhy fawr i'w gartref bresennol. Cofnodion Dounreay oedd y casgliad niwclear cyntaf i gael ei drosglwyddo; bydd deunyddiau o'r 16 safle arall yn cael eu symud yn raddol dros y blynnyddoedd nesaf.

[Dolen: Archif yn agor](#)

Peiriant yn glanhau adeilad mwyaf peryglus Sellafield

Mae peiriant 350 tunnell wedi cael ei osod yn Sellafield i fynd i'r afael ag un o'r tasgau glanhau niwclear mwyaf heriol yn y byd. Mae'r Peiriant Gwagio Seilo, sy'n werth £100 miliwn, yn un o dri pheiriant a fydd yn tynnu gwastraff ymbelydrol allan o Seilo Storio Magnox. Mae'r cyfleuster storio o'r 1960au wedi cael ei ddisgrifio fel un o'r adeiladau mwyaf peryglus yng ngorllewin Ewrop, ac mae'n cynnwys 10,000 metr ciwbig o wastraff lefel ganolradd o ddyddiau cynharaf diwydiant niwclear sifil y DU. Roedd y deunydd yn cael ei ollwng i'r chwe seilo o'r top, ac ychwanegwyd cladin Magnox yn nes ymlaen.

[Dolen: Cyflwyno Peiriant Gwagio Seilo](#)

Robot yn dymchwel y gell olaf

Mae'r strwythur mewdol olaf wedi cael ei dynnu'n ddarnau yn adeilad ategol Adweithydd Profi Deunyddiau Dounreay (DMTR), er mwyn gallu dymchwel yr adeilad yn nes ymlaen eleni. Roedd yr adeilad yn cynnwys pwll tanwydd, storfa drymiau gwastraff ac ogof archwilio ôl-arbelydru – mae pob un o'r rhain wedi cael eu datgomisiynu. Datgymalwyd

Diweddariad Misol yr NDA – Ebrill 2017

y strwythur terfynol, a oedd yn cadw gwastraff solid a oedd yn cael ei drin o bell ar y safle, gan ddefnyddio peiriant dymchwel robotaid (Brokk 180). Y DMTR oedd yr adweithydd cyntaf o dri adweithydd Dounreay i gyrraedd y pwynt critigol. Cafodd ei gau yn 1969.

[Dolen: Robot yn dymchwel y gell olaf](#)

Cyhoeddi cylchgrawn Insight

Mae rhifyn diweddaraf Insight, sef cylchgrawn newyddion yr NDA, bellach ar gael, fel copi caled ac ar y wefan.

[Dolen: Rhifyn 22 Insight](#)

Cystadleuaeth arloesi integredig yn chwilio am syniadau

Mae £3 miliwn o gyllid yn cael ei gynnig i ddatblygu ac arddangos technoleg a allai helpu i ddatrys rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â datgymalu cyfleusterau yn Sellafield. Mae gan y gystadleuaeth *Arloesi Integredig ym maes Datgomisiynu Niwclear*, sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan yr NDA ac Innovate UK y llywodraeth, ddiddordeb arbennig mewn cynigion ar y cyd o faes roboteg, systemau awtonomaidd, synwryddion a chanfodyddion, efelychu rhith-realaeth ac ati. Croesewir ceisiadau gan fusnesau o bob maint a sefydliadau academaidd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 26 Ebrill 2017.

[Dolen: Dogfennau a manylion am y gystadleuaeth](#)

Prentis o fri

Mae prentis dylunio mecanyddol o Sellafield, Adam Sharp, wedi ennill Gwobr Uwch Prentis y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol. Er y gystadleuaeth gref gan brentisiaid gorau'r wlad, daeth Adam, sy'n 22 oed, i'r brig, a chyflwynwyd y wobr iddo yn Llundain. Mae gwobrau'r Gwasanaeth Prentisiaid Cenedlaethol, yn cael eu cynnal ers 13 o flynyddoedd. Maent yn cydnabod cyflogwyr a phrentisiaid ar hyd a lled Lloegr sy'n gallu dangos sut mae prentisiaethau wedi gwneud byd o wahaniaeth i'w sefydliad ac i'w gyrfa.

[Dolen: Prentis o fri Sellafield](#)

Agor y drws ar gyfnod newydd

Mae'r olaf o chwe drws enfawr a wnaed o ddur gwrthstaen wedi cael ei roi ar Seilo Cladin Tanwydd Pentwr Sellafield (PFCS). Bydd hyn yn allweddol wrth gael mynediad at yr adeilad a thynnu'r cynnwys allan. Mae pob un o'r drysau arbennig hyn yn pwysu yr un faint ag oddeutu 150 o ddynion. Bydd tyllau'n cael eu torri y tu ôl i'r drysau fel bod modd i freichiau peirianyddol fynd i mewn a chodi'r gwastraff allan. Y PFCS yw'r hynaf o'r pedwar hen gyfleuster ar y safle, ac mae'n storio cladin a dynnwyd o Atomfa Windscale.

[Dolen: Drysau newydd PFCS wedi'u gosod](#)